**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid |
| **2** | DATGAN BUDDIANT | Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant personol na buddiant sy’n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo setlo hawliadau tâl cyfartal presennol y Cyngor ar y sail a nodwyd yn yr adroddiad fel y cytunwyd mewn egwyddor gyda Chyfreithwyr yr Hawlwyr.* |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2013 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | BWRIAD I SEFYDLU CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL DROS DRO ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cefnogi ffurfio Cydbwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy,*<br><br>*(b) yn cytuno fod yr Awdurdod yn llofnodi Cytundeb Cyfreithiol gyda Wrecsam a Sir y Fflint sy’n cael ei baratoi gan yr adran gyfreithiol, yr adran gyllid a’r swyddog AHNE.*<br><br>*(c) bod y Cydbwyllgor a’r Bartneriaeth AHNE yn sicrhau y caiff aelodau lleol sydd â wardiau'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr AHNE yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y materion a ystyrir gan y Cydbwyllgor a’r Bartneriaeth AHNE.* |
| **6** | CYNLLUN COMISIYNU LLEOL SIR DDINBYCH CEFNOGI POBL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl Lleol ar gyfer 2014/15 a 2015/16 a’i gyflwyno i Bwyllgor Gwaith Cydweithio* |

| **Agenda Item No** | **Topic** | **Decision** |
|---|---|---|
| | 2014-15 a 2015-16 | *Rhanbarthol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.* |
| **7** | CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n cynnwys y Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer Llangollen, Corwen a Llanelwy;*<br><br>*(b) yn cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Ardal a gyfeirir atynt uchod;*<br><br>*(c) yn nodi'r amserlen ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal yn y dyfodol, ac*<br><br>*(d) yn nodi'r datganiadau sefyllfa ar sefyllfa ariannol bresennol y Cynlluniau Tref ac Ardal.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth a gytunwyd ar gyfer y gyllideb.*<br><br>*(b) yn cytuno mewn egwyddor i drefnu benthyciad i Gyngor Tref Llangollen i'w cynorthwyo gyda llif arian i gefnogi buddsoddiad cyfalaf a dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau i symud y trefniant yn ei flaen pan fydd angen.*<br><br>*(c) cytuno i neilltuo £100k o'r ad-daliad a wnaed dan y Cynllun Lleihau Carbon ar gyfer ei fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni newydd, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(d) bod astudiaeth yn cael ei chynnal ar effaith y gostyngiad mewn taliadau parcio ceir yn Rhuthun ar lefelau defnydd y maes parcio a'r incwm a gynhyrchir o feysydd parcio yn y dref.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **10** | DILEU TRETHI BUSNES | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo dileu Trethi Busnes na ellir eu hadfer fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad, a*<br><br>*(b) bod y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi ei bryderon am yr arferion a fabwysiadir gan gwmnïau penodol i osgoi talu credydwyr a gofyn iddynt ymchwilio i'r gofynion deddfwriaethol i gau'r bylchau hynny yn y ddeddfwriaeth.* |
| **11** | SINEMA A CHANOLFAN GELFYDDYDAU SCALA - DIWEDDARIAD ARIANNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau i fonitro sefyllfa ariannol, rheoli gwasanaeth cyflogau Cwmni Scala Prestatyn Cyfyngedig a chymryd unrhyw gamau priodol.* |